| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 6 Chwefror, 2020 |
| **Teitl** | Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff – ymateb i'r argymhellion |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Catrin Wager |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| **Pwrpas** | Diweddaru'r Pwyllgor Craffu ar yr argymhellion |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn gwaith y gweithgor ar ymchwiliad gorfodaeth gwastraff, bu iddynt gynnig chwech argymhelliad ynghyd ac ychwanegu argymhelliad ar gyfer y drefn casglu.

1.2 Hoffai'r Adran gyflwyno'r isod fel adroddiad cynnydd ar weithredu'r argymhellion.

1.3 Rhennir yr argymhellion i ddau gategori:

- Gweithredu'n syth
- Cydweithio yn y tymor canolig gyda gwasanaethau/partneriaid eraill er gweithredu yr argymhellion

## 2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

2.1 Gweithredu'n syth:

| Argymhelliad | Beth sydd wedi digwydd a phryd | Effaith y gweithredu |
|---|---|---|
| **(7)** I weithwyr y gwasanaeth casglu weithredu yn briodol fel nad yw gwastraff yn dianc allan o'r cerbydau. | Mae'r gwasanaeth ers y 4ydd Gorffennaf, 2019 wedi rhoi mewn lle drefn newydd o gasglu. Drwy hyn wedi gwneud ffwrdd y 'Task and Finish' a chyflwyno trefn o gael yr un tîm gwaith ar yr un gylchdaith. Y drefn newydd mewn lle yn Arfon a Dwyfor a byddwn yn cwblhau'r gwaith ym Meirionnydd fis Mai. | • Llai o gasgliadau wedi methu yn Nwyfor<br>• Llai o gwynion am flerwch a rhuthro<br>• Methiant cwblhau cylchdeithiau yn Arfon (hyn yn cael ei adolygu) |

2.2 Cydweithio yn y tymor canolig gyda gwasanaethau/partneriaid eraill er gweithredu yr argymhellion:

| Argymhelliad | Beth sydd wedi digwydd a phryd | Effaith y gweithredu |
|---|---|---|
| **(1)** Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud â chynhwysyddion gwastraff i gyflwyno trefn newydd lle a phryd a bo'r angen, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth. | Oherwydd y newidiadau i drefniadau casglu gwastraff Sirol, yn cynnwys newid i ddyddiau casglu, penderfynwyd gohirio gweithred o'r pwerau newydd am gyfnod o 6 mis.<br><br>Mae'r polisi gweithredol, canllawiau a phwerau gorfodaeth mewn lle. Mae angen hyfforddi staff yn ystod y cyfnod gwireddu. | Bwriad y defnydd o'r pwerau bydd gwella diogelwch a delwedd strydoedd Gwynedd.<br><br>Mae'r oedi am roi gwell cyfle i ddefnyddwyr ddod i arfer gyda'r drefn newydd cyn gwireddu. |
| **(2)** Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydnabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y Sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn. | Cyfarfodydd pellach gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Phrifysgol Bangor i symud yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymlaen wedi ei drefnu ym mis Chwefror 2020. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn cyfrannu at y broses. | Sicrhau bod defnyddwyr yn gyfarwydd â'r anghenion newydd. Rhaglen gyfathrebu clir. |
| **(3)** Gosod sticeri 'QR Code' ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu. | Bwriad i gynnal peilot yn ardal Bangor Uchaf fel man cychwyn. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn arwain yr elfen yma yn ystod y Gwanwyn. | Gwella mynediad defnyddwyr at wybodaeth gywir ac amserol mewn perthynas a threfniadau casglu. |
| **(4)** Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor. | Eisoes wedi cytuno i gydweithio yn agos gyda'r Adran Tai a Llesiant, Gwarchod y Cyhoedd a Cynllunio. Angen cynnal cyfarfodydd cynnydd chwarterol yn ystod y cyfnod gwireddu. | Defnydd o bwerau amrywiol i ddatrys problemau amgylcheddol. |
| **(5)** Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach. | I ddigwydd ar y cyd gyda'r ymgyrch ehangach – gweler 2. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn arwain yr elfen yma ac mae gwaith cychwynnol wedi dechrau yma. | Sicrhau bod defnyddwyr yn gyfarwydd â'r gwasanaethau penodol sydd ar gael. |
| **(6)** Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus. | I ddigwydd ar y cyd efo'r ymgyrch ehangach – gweler 2. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn arwain yr elfen yma. | Sicrhau bod defnyddwyr yn gyfarwydd â'r gwasanaethau penodol sydd ar gael. |

## 3. Camau Nesaf

3.1 Drwy weld y drefn casglu newydd yn ei le, bydd yn amserol i fwrw ymlaen nawr fel yr amlygir yn y tabl uchod.